



Rhagoriaeth i bawb – Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate
for Education and Training in Wales

Adroddiad ar

**Ysgol Bro Hedd Wyn
Trawsfynydd
Blaenau Ffestiniog
Gwynedd
LL41 4SE**

Dyddiad yr arolygiad: Tachwedd 2011

gan

Mr M Lloyd Jones

ar ran

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?

Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?

Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

Barn	Yr hyn mae'r farn yn ei olygu
Rhagorol	Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector
Da	Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol
Digonol	Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella
Anfoddhaol	Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW

neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan:
www.estyn.gov.uk

® Argraffydd y Frenhines a Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi 2011: Gellir aildefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei aildefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod hawlfraint y deunydd rhagddywededig a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Cyd-destun

Lleolir Ysgol Bro Hedd Wyn ym mhentref Trawsfynydd, Meirion, De Gwynedd. Mae'n darparu addysg ar gyfer disgyblion 3-11 oed. Roedd 63 o ddisgyblion llawn amser a thri ar ddeg o blant meithrin rhan-amser ar gofrestr yr ysgol yn ystod yr arolygiad. Mae'r niferoedd wedi gostwng oddeutu 20% ers yr arolwg diwethaf.

Gwasanaetha'r ysgol ardal wledig sy'n Gymraeg ei hiaith a'i diwylliant. Cymraeg yw'r brif iaith a siaredir yn y cartref gan oddeutu 93% o'r disgyblion ond disgwylir i bob disgybl fod yn rhugl yn y Gymraeg a'r Saesneg cyn trosglwyddo i'r ysgol uwchradd.

Derbynnir plant i'r ysgol yn llawn amser ar ddechrau mis Medi yn dilyn eu pen-blwydd yn bedair oed. Mae gan yr ysgol ddisgyblion o'r ystod gallu lawn. Nid yw dalgylch naturiol yr ysgol yn freintiedig nac yn ddifreintiedig ac mae'r ganran o ddisgyblion sydd â'r hawl i dderbyn cinio ysgol yn rhad ac am ddim, sef 5%, yn is na'r cyfartaledd sirol a chenedlaethol.

Mae 5% o'r disgyblion ag anghenion addysgol arbennig, sy'n sylweddol is na'r cyfartaledd sirol a chenedlaethol.

Arolygwyd yr ysgol ddiwethaf yn yr Hydref 2005. Penodwyd y pennaeth i'w swydd yn Medi 2000.

Y gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Bro Hedd Wyn yn 2011-12 yw £3207 sy'n cymharu ag uchafswm i ysgolion cynradd Gwynedd o 7731 ac isafswm o £2674. Gan yr ysgol mae'r 65ain cyllideb uchaf fesul disgybl o'r 103 ysgol gynradd yr awdurdod.

Crynodeb

Perfformiad presennol yr ysgol	Da
Rhagolygon gwella'r ysgol	Da

Perfformiad presennol

Perfformiad cyfredol

Mae'r ysgol yn dda oherwydd:

- mae rhan fwyaf y disgyblion yn cyflawni'n dda;
- mae'r addysgu o ansawdd da ac mae'r disgyblion yn cael budd o gwricwlwm diddorol ac amrywiol; a
- mae ethos cynhwysol yr ysgol yn creu'r amodau gorau posibl i bob unigolyn ddatblygu a ffynnu.

Rhagolygon gwella

Rhagolygon gwella

Mae gan yr ysgol ragolygon gwella da oherwydd mae'r:

- pennaeth yn cynnig arweiniad cydwybodol a chllir; a
- holl aelodau'r staff yn dangos ymrwymiad llwyr i wella safonau;

Argymhellion

Er mwyn gwella'n ymhellach mae angen i'r ysgol:

A1 barhau i wella medru ysgrifennu Saesneg yng nghyfnod allweddol 2;

A2 sicrhau gwell cysondeb yn nghyflwyniad a llawysgrifen disgyblion yng nghyfnod allweddol 2; a

A3 sicrhau bod cyswllt clir rhwng hunan-arfarnu, blaenoriaethau'r ysgol a thargedau unigol disgyblion.

Beth sy'n digwydd nesaf?

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

Prif ganfyddiadau

Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?

Da

Safonau: Da

Mae perfformiad yr ysgol yn y ddau gyfnod allweddol yn dda o'i gymharu â'r cyfartaleddau lleol a chenedlaethol a pherfformiad ysgolion tebyg. Dros y pedair blynedd diwethaf, cyflawnodd bron pob disgybl yng nghyfnod allweddol 1 y lefel disgwyliedig ym mhob pwnc craidd.

Mae'r niferoedd sy'n cyflawni lefel uwch na'r disgwyl yng nghyfnod allweddol 1, sef lefel 3 neu well, yn y Gymraeg, yn gyson uwch nag ysgolion tebyg ac yn y 25% uchaf yng Nghymru ym mhob un o'r pedair blynedd diwethaf.

Yng nghyfnod allweddol 2, dros yr un cyfnod mae perfformiad yr ysgol mewn perthynas â'r lefel ddisgwyliedig i ddisgyblion unarddeg mlwydd oed wedi gwella ac yn 2011 yr uchaf yn y teulu.

Yn 2011 roedd canran y disgyblion sy'n cyflawni'n uwch na'r lefelau disgwyliedig (lefel 5 neu'n uwch) gyda'r uchaf yn y teulu ym mhob pwnc craidd. Yn gyffredinol bu'r niferoedd sy'n cyflawni'r lefelau uwch gyfwerth neu'n uwch na chyfartaledd y teulu a Chymru dros y tair blynedd flaenorol.

Mae'r disgyblion sydd â hawl i dderbyn prydau ysgol am ddim, y rhai sydd ag anghenion addysgol arbennig a'r disgyblion uwch eu gallu yn cyflawni'n dda yn unol â'u hoed a gallu. Nid oes patrwm arwyddocaol yn cyfeirio at unrhyw wahaniaethau rhwng cyflawniad merched a bechgyn.

Yn y Cyfnod Sylfaen, fe wna y rhan fwyaf y plant gynnydd cyson ac amlwg ar draws yr holl feysydd dysgu. Mae eu hyder yn datblygu'n gyflym wrth iddynt ddewis eu gweithgareddau dysgu ac maent yn ymroi'n frwdfrydig iddynt. Mae rhan fwyaf o'r plant yn datblygu sgiliau llafar da ac yn datblygu sgiliau darllen ac ysgrifennu priodol.

Wrth symud drwy gyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd da yn y gwahanol bynciau. Maent yn dwyn i gof dysgu blaenorol yn dda ac yn dangos gwybodaeth a dealltwriaeth dda o'r hyn maent wedi'i ddysgu mewn sawl pwnc.

Mae medrau dwyieithog rhan fwyaf y disgyblion yn dda. Wrth gychwyn yn yr ysgol, ychydig iawn o ddisgyblion sydd â meistrolaeth o'r Saesneg, serch hynny mae eu sgiliau llafar yn datblygu'n sydyn iawn. Mae medrau Cymraeg yr ychydig ddisgyblion a ddaw o gartrefi di-Gymraeg hefyd yn datblygu'n gyflym ac yn effeithiol iawn.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf y disgyblion yn gwrando'n astud ac yn canolbwyntio'n dda. Maent yn siarad yn hyderus yn y gwersi ac fe welwyd cyflwyniad graenus iawn gai rai wrth ddefnyddio technoleg.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn darllen amrywiaeth dda o destunau yn unol â'u hoedran a'u gallu. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf yn darllen gyda rhuglder a mwynhad yn Gymraeg a Saesneg. Mae'r goreuon yn newid goslef yn effeithiol gan ddangos aeddfedrwydd amlwg, ac mae'r rhai llai abl yn defnyddio strategaethau darllen yn llwyddiannus iawn i gywain ystyr. Mae mwyafrif yn defnyddio eu medrau yn hyderus wrth ymchwilio a chofnodi eu gwaith mewn sawl pwnc.

Mae medrau ysgrifennu rhan fwyaf y disgyblion yn y Gymraeg yn dda neu'n well ond nid ydynt cystal yn y Saesneg oherwydd nad yw medrau sillafu llawer ohonynt yn ddigon cadarn.

Erbyn diwedd y cyfnod allweddol, fe geir enghreifftiau da o waith ymestynnol gai rai disgyblion yn arbennig yn Gymraeg. Yn gyffredinol, amrywiol yw safon taclusrwydd a llawysgrifen llawer o ddisgyblion yn y gwahanol bynciau.

Mae medrau creadigol llawer o ddisgyblion ar draws yr ysgol o safon da iawn.

Defnyddia rhan fwyaf y disgyblion eu medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) yn effeithiol i gywain gwybodaeth ac i gyflwyno gwaith mewn sawl pwnc. Nid yw eu medrau i ddadansoddi data cystal. Maent yn defnyddio rhifedd i gryfhau eu dealltwriaeth mewn sawl maes yn llwyddiannus.

Lles: Da

Mae medrau personol, cymdeithasol a bywyd y disgyblion yn datblygu'n dda ac yn eu paratoi'n dda ar gyfer bywyd a gwaith tu allan i'r ysgol.

Mae gan y rhan fwyaf ymwybyddiaeth dda o faterion iechyd a diogelwch. Mae pob un ohonynt yn deall yr angen i gymryd rhan mewn ymarfer corff ac i fwyta'n iach. Maent yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi sy'n cael effaith gadarnhaol iawn ar y safonau maent yn eu cyflawni. Maent i gyd yn gwrtais ac yn parchu ei gilydd.

Dengys rhan fwyaf y disgyblion ddiddordeb a chymhelliant ac maent yn dangos balchder a hyder wrth ymgymryd â'u gweithgareddau. Mae llawer yn gweithio'n dda yn annibynnol dan gyfarwyddyd aelodau'r staff ac yn cyfrannu'n effeithiol at yr hyn y maent yn ddysgu.

Mae ymddygiad bron pob un o'r disgyblion yn dda iawn o fewn y dosbarthiadau ac yn ystod amser egwyl a chinio. Mae pob un o'r disgyblion yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol.

Mae aelodau o'r cyngor ysgol yn weithgar ac yn cynrychioli barn y disgyblion yn dda. Maent wedi cael effaith gadarnhaol ar agweddau megis amgylchedd yr ysgol, adnoddau a phenderfynu ar elusennau i'w cefnogi.

Mae mwyafrif y disgyblion yn yr ysgol yn deall pa mor dda maent yn ei wneud; serch hynny, nid ydynt bob amser yn glir beth sydd angen iddynt wneud i wella.

Mae'r cyfraddau presenoldeb o bron 95% yn dda ac yn uwch nag ysgolion tebyg, yr awdurdod lleol (ALI) a chyfartaleddau cenedlaethol. Mae bron bob un o'r disgyblion yn cyrraedd yr ysgol yn brydlon.

Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?
--

Da

Profiadau dysgu: Da

Mae'r ysgol yn darparu ystod eang a chytbwys o brofiadau dysgu da i'r holl ddisgyblion sydd yn cyfoethogi eu haddysg ac yn llwyr ymateb â gofynion y Cyfnod Sylfaen, y Cwricwlwm Cenedlaethol ac addysg grefyddol. Darperir profiadau cyfoethog ac ysgogol ar gyfer y Cyfnod Sylfaen mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd tu fewn a thu allan i'r dosbarth. Adeiladir ar hyn yn llwyddiannus yng nghyfnod allweddol 2. Mae'r disgyblion yn cael cyfleoedd da i gyd-weithio annibynnol dan gyfarwyddyd oedolion.

Ar y cyfan, mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau cyfathrebu, rhifedd a TGCh disgyblion wedi ei gynllunio'n briodol. Mae cynlluniau effeithiol ar gyfer datblygu medrau llythrennedd yn y Gymraeg, fodd bynnag, nid yw'r cynlluniau i ddatblygu medrau sillafu disgyblion yn y Saesneg yr un mor effeithiol. Rhoddir sylw da i sgiliau creadigol a medrau meddwl ar draws y cwricwlwm.

Caiff y ddarpariaeth ar gyfer datblygu'r dimensiwn Cymreig ei ddatblygu'n effeithiol iawn trwy'r ysgol. Rhoddir sylw da iawn i hyrwyddo Cymreictod trwy ddatblygu dealltwriaeth am yr amgylchedd lleol, hanes a llên gwerin yr ardal mewn cyd-destun diwylliant Cymru.

Mae'r ysgol yn hyrwyddo dealltwriaeth y disgyblion o ddatblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth byd eang yn dda.

Addysgu: Da

Mae ansawdd yr addysgu yn gyson dda. Mae'r athrawon yn meddu ar wybodaeth bynciol da ac yn cynllunio gwersi a gweithgareddau diddorol sydd yn ennyn ymrwymiad y disgyblion yn effeithiol.

Mae aelodau'r staff yn deall anghenion eu disgyblion yn dda a defnyddir ystod o ddulliau amrywiol i ymateb i wahanol alluoedd o fewn y dosbarthiadau.

Mae athrawon yn gwneud defnydd priodol o adnoddau. Mae cymorth yr holl oedolion yn sicrhau ffocws da i weithgareddau ac yn cyfrannu'n sylweddol at ansawdd dysgu'r disgyblion.

Darperir adborth cynhaliol i ddisgyblion sydd yn hyrwyddo awyrgylch ddysgu gadarn. Mae athrawon yn marcio gwaith y disgyblion yn gyson, fodd bynnag, nid yw'r adborth ysgrifenedig bob amser yn sicrhau fod y disgyblion yn deall yr hyn sydd angen iddynt ei wneud i wella. Yn yr enghreifftiau gorau cynigir sylwadau adeiladol sydd yn datblygu gallu'r disgyblion i wella eu perfformiad eu hunain.

Gwelir enghreifftiau da o gyfoedion yn marcio a rhoi adborth ar waith ei gilydd.

Dadansoddir canfyddiadau asesu yn effeithiol a chedwir cofnodion clir a defnyddiol ar bob disgybl.

Caiff rhieni/gofalwyr wybodaeth dda am gyflawniadau, rhinweddau personol a datblygiad eu plant. Fodd bynnag, nid oes amlinelliad o feysydd i'w gwella yn yr adroddiadau.

Gofal, cymorth ac arweiniad: Da

Mae trefniadau effeithiol yn bodoli i gefnogi iechyd a lles disgyblion yn ogystal ag annog eu hymglymiad yn eu hysgol a'r gymuned ehangach. Mae'r trefniadau hyn yn cyfrannu'n dda at gyflawniad a lles disgyblion ac yn cefnogi eu dysgu yn llwyddiannus. Mae profiadau dysgu yn hyrwyddo datblygiad personol disgyblion yn dda iawn, gan gynnwys eu datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol.

Mae'r ysgol yn cydweithio'n effeithiol ag asiantaethau allanol i gefnogi disgyblion ac mae'r cymorth wedi ei dargedu'n effeithiol ar gyfer unigolion.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau a pholisi priodol ar gyfer diogelu.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn dda. Llwyddir i ymateb yn brydlon i bryderon. Mae'r cynlluniau addysg unigol yn cael eu harfarnu a'u diweddarau yn effeithiol a rheolaidd ac mae lefel uchel iawn o ymgynghori â rhieni/gofalwyr.

Yr amgylchedd dysgu: Da

Mae sylw a phwyslais amlwg ar greu amgylchedd diogel a gofalgarg ac fe welir hyn yn natur glos a chymdeithasol yr ysgol.

Llwydda'r ysgol i weithredu fel cymuned gynhwysol iawn lle mae pawb yn cael ei barchu'n dda. Rhoddir pwyslais clir ar gydnabod a dathlu amrywiaeth. Hyrwyddir cyfle cyfartal yn dda.

Mae digon o adnoddau da sy'n gweddu'n dda i anghenion y disgyblion, a gwneir defnydd effeithiol ohonynt. Mae'r amgylchedd dysgu ym mhob dosbarth yn ddeniadol gydag arddangosfeydd lliwgar sy'n dangos parch at waith y disgyblion. Mae'r rhain yn ychwanegu'n fawr at eu profiadau. Mae'r adeilad a thir yr ysgol yn cael eu defnyddio'n effeithiol ac yn cael eu cynnal yn dda.

Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?
--

Da

Arweinyddiaeth: Da

Mae rheolwyr ac arweinwyr yn gwireddu eu gweledigaeth a'u gwerthoedd. Gosodir cyfeiriad clir i'r ysgol sy'n cael ei harddel gan y staff cyfan. Llwyddir i hyrwyddo ethos cynhaliol a chefnogol sy'n cael effaith gadarnhaol ar safonau a darpariaeth yr ysgol.

Mae'r pennaeth yn darparu arweinyddiaeth cydwybodol sy'n sicrhau systemau cyfathrebu effeithiol iawn ac ymdeimlad cryf o waith tîm.

Mae rolau a chyfrifoldebau'r staff a ddiwygwyd yn ddiweddar, yn glir a gweithredir trefniadau effeithiol i reoli perfformiad. O ganlyniad, mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd priodol ar gyfer datblygiad proffesiynol y staff.

Mae'r llywodraethwyr yn ymgymryd â'u rolau a'u cyfrifoldebau yn gydwybodol ac mae ganddynt ddealltwriaeth dda o berfformiad yr ysgol. Maent yn mynychu hyfforddiant addas ac yn herio'r ysgol yn effeithiol fel ffrindiau beirniadol.

Llwydda'r ysgol i roi sylw dyledus i flaenoriaethau cenedlaethol a lleol. Datblygwyd y Cyfnod Sylfaen yn llwyddiannus iawn a rhoddir sylw dyledus i ddatblygu medrau meddwl disgyblion ar draws yr ysgol. Rhoddir llais clir i'r disgyblion wrth benderfynu ar agweddau o waith yr ysgol.

Gwella ansawdd: Da

Mae'r trefniadau hunan arfarnu a chynllunio ar gyfer gwelliant yn dda. Mae'r broses yn drylwyr ac yn rhan reolaidd o fywyd a gwaith yr ysgol. Defnyddir nifer o dulliau o fewn y drefn gan gynnwys edrych ar enghreifftiau o waith disgyblion a dadansoddiad gofalus o ganlyniadau asesiadau ffurfiol. Mae'r broses yn gynhwysol ac mae'r ysgol yn weithredol wrth geisio canfod barn dysgwyr, staff, rhieni a'r llywodraethwyr.

Mae'r blaenoriaethau a bennir yn y cynllun datblygu ysgol (CDY) yn addas ar gyfer datblygiad yr ysgol. Nodir y dulliau gweithredu o dan y gwahanol flaenoriaethau a'r deilliannau disgwylidig. Dynodir hefyd gyfrifoldebau gweithredu a chlustnodir adnoddau ar gyfer cefnogi'r datblygiadau. Mae'r cynllun yn cael ei fonitro a'i werthuso'n ofalus gan aelodau o'r staff a'r llywodraethwyr. Serch hynny, nid yw'r cyswllt rhwng canfyddiadau'r adroddiad hunan arfarnu blaenoriaethau yn y CDY a thargedau unigol y disgyblion bob amser yn glir.

Mae'r ysgol yn gymuned ddysgu broffesiynol sydd yn galluogi staff i rannu gwybodaeth ac arbenigedd. Mae rhwydweithiau effeithiol o gydweithio gydag ysgolion a phartneriaid eraill. Mae hyn wedi arwain at welliannau, er enghraifft yn ysgrifennu ffeithiol y disgyblion yn y Gymraeg.

Gwnaeth yr ysgol gynnydd da ers yr arolygiad diwethaf. Cafodd y camau a gymerwyd effaith gadarnhaol ar safonau cyflawniad y disgyblion. Serch hynny, nid yw'r holl argymhellion wedi eu llawn gyflawni parthed taclusrwydd gwaith a sillafu yn Saesneg.

Gweithio mewn partneriaeth: Da

Mae'r ysgol yn gweithio'n effeithiol gydag ystod o bartneriaid sy'n cael effaith fuddiol ar les a chyrhaeddiad disgyblion. Ceir partneriaeth gref iawn gyda rhieni a'r gymuned leol. Maent yn gefnogol iawn i'r ysgol ac yn cyfrannu tuag at nifer o weithgareddau, gan gynnwys codi arian i wella'r ddarpariaeth addysgol. Mae enghreifftiau o gysylltiadau gyda busnesau lleol sy'n hybu ymwybyddiaeth disgyblion o fyd gwaith.

Mae'r cydweithio da gyda chylch meithrin y pentref wedi sicrhau gofal gydol dydd i rieni ac yn paratoi'r plant yn dda ar gyfer eu cyfnod yn yr ysgol.

Mae partneriaeth dda gydag ystod briodol o asiantaethau a sefydliadau allanol fel gwasanaethau iechyd a chymdeithasol i gwrdd ag anghenion penodol unigolion pan fo angen. Caiff hyn effaith gadarnhaol ar ddatblygiad lles a chyrhaeddiad y disgyblion hynny.

Mae gan yr ysgol bartneriaeth strategol dda gydag ysgolion y dalgyrch a'r ysgol uwchradd leol. Mae'r trefniadau hyn yn effeithiol, er enghraifft, i safoni a chymedroli asesiadau athrawon diwedd cyfnod allweddol ac i sicrhau trosglwyddo esmwyth i'r ysgol uwchradd.

Rheoli adnoddau: Da

Caiff staffio ac adnoddau ariannol eu rheoli a'u defnyddio'n dda. Mae nifer priodol o athrawon profiadol gyda'r wybodaeth a'r arbenigedd i gyflwyno'r cwricwlwm yn effeithiol.

Gweinyddir yr amser di-gyswllt mewn modd sydd yn sicrhau y gall athawon gyd-gynllunio, paratoi ac asesu.

Rhoddir cefnogaeth effethiol iawn i'r athrawon gan staff cymorth cydwybodol. Maent yn gweithio'n bwrpasol ochr yn ochr ag athrawon yn yr ystafell ddosbarth neu ar ddyletswyddau trwy gydol y dydd. Caiff hyn effaith gadarnhaol ar gyflawniad disgyblion.

Mae rheolwyr yn monitro ac yn rheoli gwariant yn effeithiol. Dosrannir arian yn briodol ar gyfer blaenoriaethau'r ysgol. Yn ddiweddar, defnyddiwyd peth o'r arian wrth gefn i gyflogi staff cymorth ychwanegol. Caiff hyn effaith gadarnhaol ar ehangu profiadau dysgu yn y Cyfnod Sylfaen.

Mae'r ysgol yn rhoi gwerth da am arian o ran deilliannau disgyblion, darpariaeth ac yn ei defnydd o gyllid.

Atodiad 1

Sylwadau ar ddata perfformiad

Rhaid trin asesiadau athrawon ar ddiwedd blwyddyn 2, yng nghyfnod allweddol 1, ac ar ddiwedd blwyddyn 6, yng nghyfnod allweddol 2, gyda gofal oherwydd bod y niferoedd bychan o blant mewn blwyddyn yn gallu effeithio'n sylweddol ar berfformiad ysgol o un flwyddyn i'r llall.

Dros y bedair blynedd diwethaf, roedd perfformiad yr ysgol mewn perthynas â'r lefel ddisgwyliedig mewn Cymraeg, mathemateg a gwyddoniaeth, i ddisgyblion saith mlwydd oed (y dangosydd pwnc craidd (DPC), yn uwch na chyfartaledd ysgolion yn yr un teulu a chyfartaledd Cymru. Cyflawnodd bron pob disgybl y lefel disgwyliedig, sef lefel 2, dros y pedair blynedd diwethaf yn y tri pwnc.

Ym mhob un o'r bedair blynedd diwethaf roedd perfformiad yr ysgol yn y dangosydd pwnc craidd yn y 50% uchaf o ysgolion sy'n debyg o ran niferoedd cinio am ddim ac yn y 25% uchaf mewn dwy o'r blynyddoedd hynny.

Roedd y niferoedd yn cyflawni lefel uwch na'r disgwyl, sef lefel 3 neu well, yn y Gymraeg, yn gyson uwch na chyfartaleddau'r teulu a Chymru ac y 25% uchaf yng Nghymru ym mhob un o'r bedair blynedd diwethaf. Roedd perfformiad yr ysgol ychydig yn fwy amrywiol ym mathemateg a gwyddoniaeth ond yn tueddu i fod yn gyfwerth neu'n uwch na chyfartaledd y teulu dros y cyfnod.

Yng nghyfnod allweddol 2, dros y bedair mlynedd diwethaf mae perfformiad yr ysgol mewn perthynas â'r lefel ddisgwyliedig i ddisgyblion unarddeg mlwydd oed (y DPC) wedi gwella ac yn 2011 yr uchaf yn y teulu. Yn gyffredinol, dros y dair mlynedd diwethaf mae perfformiad yn y pedwar pwnc yn tueddu i fod yn gyfwerth neu'n uwch na chyfartaledd y teulu.

Mae'r canlyniadau, o'u cymhau dros yr un cyfnod gydag ysgolion tebyg o safbwynt niferoedd plant cinio am ddim yn fwy amrywiol. Yn y Gymraeg, bu yn y 25% uchaf o ysgolion tebyg mewn dwy o'r blynyddoedd hynny.

Yn 2011 roedd canran y disgyblion sy'n cyflawni'n uwch na'r lefelau disgwyliedig ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 (lefel 5 neu'n uwch) gyda'r uchaf yn y teulu ym mhob pwnc craidd. Yn gyffredinol bu'r niferoedd sy'n cyflawni'r lefelau uwch yn uwch na chyfartaledd y teulu a Chymru dros y dair blynedd flaenorol.

Atodiad 2

Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

Ymatebion i'r holiadur i rieni/gofalwyr

Nifer o ymatebion: 22

Mae bron bob un rhiant/gofalwr yn cytuno'n gryf fod yr ysgol yn:

- cael ei rhedeg yn dda;
- darparu amrywiaeth dda o weithgareddau;
- helpu eu plentyn i ddod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldeb; a
- rhoi cymorth ychwanegol priodol.

Mae rhan fwyaf yn cytuno fod eu plentyn yn:

- hoffi'r ysgol;
- cael cymorth i ymgartrefu'n dda wrth ddechrau yn yr ysgol;
- gwneud cynnydd da;
- cael ei annog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd;
- ddiogel yn yr ysgol; a
- cael eu paratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf.

Mae rhan fwyaf yn cytuno fod:

- yr addysgu'n dda;
- y disgyblion yn ymddwyn yn dda;
- staff yn disgwyl i'w plentyn weithio'n galed ac i wneud ei orau;
- gwaith cartref sy'n cael ei roi yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae eu plentyn yn ei ddysgu yn yr ysgol; a
- staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch,

Mae rhan fwyaf yn cytuno eu bod yn:

- cael gwybodaeth cyson am gynnydd eu plentyn;
- teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem; a
- deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion.

Ymatebion i'r holiadur i ddisgyblion

Nifer o ymatebion: 34

Mae bron bob un disgybl yn cytuno fod yr ysgol yn:

- delio'n dda ag unrhyw fwlio; a
- rhoi llawer o gyfleoedd i gael ymarfer corff yn rheolaidd;

Mae bron bob un disgybl yn cytuno fod:

- athrawon a'r oedolion eraill yn yr ysgol yn eu helpu i ddysgu a gwneud cynnydd;
- gwaith cartref yn eu helpu i ddeall a gwella eu gwaith;
- ganddynt ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud eu gwaith;
- plant eraill yn ymddwyn yn dda a'u bod yn gallu gwneud eu gwaith; a
- bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio.

Mae bron bob un disgybl yn cytuno eu bod yn:

- gwneud yn dda yn yr ysgol;
- gwybod pwy i siarad ag ef/hi os yw'n poeni neu ofidio, neu os ydynt yn gweld eu gwaith yn anodd;
- dysgu sut i aros yn iach; a
- themlo'n ddiogel yn yr ysgol.

Atodiad 3

Y tîm arolygu

Mr M Lloyd Jones	Arolygydd Cofnodol
Mr G Morris	Arolygydd Tîm
Mr D Jones	Arolygydd Lleyg
Olwen Corben	Arolygydd Cymheiriaid

Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

O dan Ddeddf Addysg 2005, rhaid i'r ysgol ddarparu copïau o'r adroddiad am ddim i gategoriâu penodol o bobl. Gellir codi tâl nad yw'n fwy na chost atgynhyrchu ar bobl eraill sy'n gofyn am gopi o'r adroddiad. Os yw ar gael, mae'r adroddiad data i'w weld ar ein gwefan ochr yn ochr â'r adroddiad hwn.

Grwpiau blwyddyn a chyfnodau allweddol

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac AALLau.

Mae'r term 'Derbyn' (D) yn cyfeirio at grŵp blwyddyn o ddisgyblion mewn ysgol gynradd sy'n cyrraedd 5 oed yn ystod y flwyddyn academaidd. Mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp blwyddyn o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, ac ati. Blwyddyn 13 yw'r grŵp o fyfyrwyr sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

Blwyddyn	D	B1	B2	B3	B4	B5	B6
Oedrannau	4-5	5-6	6-7	7-8	8-9	9-10	10-11

Cyfnod uwchradd:

Blwyddyn	B7	B8	B9	B10	B11	B12	B13
Oedrannau	11-12	12-13	13-14	14-15	15-16	16-17	17-18

Mae'r pedwar cyfnod allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

Cyfnod allweddol 1	Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2
Cyfnod allweddol 2	Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6
Cyfnod allweddol 3	Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9
Cyfnod allweddol 4	Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11